Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanarth
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Llanarth
# Llanarth
# Ceredigion
# SA47 0PA

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanarth. Mae'n cwrdd mewn caban hunangynhaliol ar dir Ysgol Gynradd Llanarth, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae rhan fwyaf o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae tua hanner y plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pedwar ymarferydd cymwysedig, gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2001.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2016. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Chwefror 2013.

## Crynodeb

| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr ac ysgogol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol
- ymarferwyr yn cynllunio'n drwyadl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn fwriadus
- ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol, sy'n annog a chreu dysgwyr hyderus
- addysgu cadarn yr ymarferwyr yn effeithio'n gynhyrchiol ar gyflawniad y plant
- trefniadau llwyddiannus yn eu lle i gefnogi iechyd, lles ac anghenion y plant
- ymarferwyr yn defnyddio'r caban, yr ardal allanol a'r pentref i fodloni disgwyliadau a diddordebau'r plant yn bwrpasol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir a chadarn i waith y lleoliad
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu'r weledigaeth fwriadus a'r targedau synhwyrol sy'n bodoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi a herio'r lleoliad yn ddeallus i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr a threfnus sy'n arwain at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth a safonau plant
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant gwerthfawr gan asiantaethau allanol i wella'u medrau personol er lles y plant
- partneriaethau llewyrchus ag asiantaethau arbenigol, yr ysgol a rhieni a gofalwyr
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n gwneud defnydd gweithredol o gyllid a grantiau i greu gwelliannau effeithiol yn y ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau penodol i ddatblygu medrau datrys problemau y plant

A2 Defnyddio arsylwadau dyddiol yn fwriadus i olrhain cynnydd plant unigol dros amser

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr ac ysgogol sy’n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol, sy’n targedu anghenion a diddordebau’r plant yn fwriadus. Er enghraifft, mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol yn yr ardal allanol, fel cymysgu pridd i greu brecwast i’r arth yn y gegin fwd, sy’n datblygu medrau’r plant yn llwyddiannus ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n drwyadl i sicrhau dilyniant a pharhad ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae gweithgareddau fel arbrofi gyda bwcedi a blychau gwahanol yn y tywod a gyda dŵr i gymharu cyfaint yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd y plant, tra bod cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi â llythrennau gwahanol wrth archebu nwyddau adeiladu yn ‘Siop Bob’ yn datblygu eu medrau llythrennedd yn fuddiol. Mae’r gweithgareddau hyn yn adeiladu’n bwrpasol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant, sy’n deillio o’u penderfyniadau personol cyn iddynt ddechrau’r thema. O ganlyniad, mae’r tasgau dyddiol a ddarperir, ar draws yr holl feysydd dysgu, yn herio’r plant i berfformio ar eu gorau’n gyson.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, recordydd llais, camerâu a meicroffon. Maent yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol iddynt ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau’n llwyddiannus i gyfatebu â’r themau ac anghenion y plant. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo’r Gymraeg yn dda. Maent yn modelu’r iaith yn effeithiol, er enghraifft drwy ailadrodd ymadroddion syml a chanu hwiangerddi yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o’r plant o’r iaith yn datblygu’n gyflym. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn creu ymwybyddiaeth ddeallus ymysg y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio prydau traddodiadol a chymryd rhan yng ngweithgareddau’r pentref fel ymweld â’r eglwys a busnesau lleol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy’n datblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn fwriadus. Maent yn gweithio’n ddiwyd â’i gilydd i ddarparu gweithgareddau llwyddiannus, sy’n cymell y plant i gydweithio a dysgu’n

ymarferol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i wneud yoga a dawnsio yn yr adeilad a rhedeg a neidio ar fuarth yr ysgol. Yn ogystal, maent yn trafod ac adlewyrchu nodweddion yr hydref wrth beintio lliwiau'r dail a chreu map lliwgar o'u taith o gwmpas y pentref. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i'w galluogi i ddatblygu medrau datrys problemau yn gwbl annibynnol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'u cartrefi, adeiladau'r pentref a busnesau lleol fel y siop a'r ganolfan arddio. Mae'r ddarpariaeth i godi ymwybyddiaeth y plant o bobl yn eu cymuned yn dda trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad, fel y glanweithydd deintyddol, adeiladwr lleol a'r lori ailgylchu.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Mae eu gwaith dyddiol a'u gwybodaeth berthnasol yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn ddoeth a chyson, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drin a thrafod nodweddion llestri gwahanol, fel eu maint, wrth osod y bwrdd. Mae cyflwyniadau torfol yr ymarferwyr yn sionc a phwrpasol ac yn ysgogi'r plant i ddechrau'r gweithgareddau'n brydlon. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau ac yn canolbwyntio'n gydwybodol ar amcanion y gweithgareddau ffocws.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogelwch diwyd yn perthyn i'w gwaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o ba bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu diddori ymhellach a'u cymell i lwyddo. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i adeiladu jigso yn ystod gemau bwrdd a thrwy ludo blociau â thoes i godi wal o flociau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod awydd y plant i ddysgu a gwella eu hymdrechion yn uchel.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn effeithiol ar lafar. Yn ogystal, maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol ar daflenni cofnodi defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau asesu yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant ac olrhain eu cynnydd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno enghreifftiau o waith y plant ac adroddiadau ar eu cynnydd i rieni, sy'n adlewyrchu ddatblygiad eu plant yn glir.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gweithgareddau penodol yn llwyddiannus i drafod teimladau eraill fel nodi sut mae unigolion yn teimlo ar fwrdd teimladau. Yn ogystal, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn ddeallus drwy annog y plant i ddweud diolch i'w gilydd yn gyson, rhannu adnoddau'n rheolaidd a myfyrio trwy weddïo ar ddiwedd sesiwn. O ganlyniad, mae arferion dyddiol y lleoliad yn fuddiol i'w ethos cyffredinol a'r gweithgareddau sy'n digwydd ar y cyd, fel amser byrbryd ac amser stori.

Mae gan y lleoliad drefniadau cynhwysfawr i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw'n heini yn rhan bwysig o ddiet synhwyrol a bywydau iachus. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn cynnal sesiwn ffitrwydd ar fuarth yr ysgol yn rheolaidd a gwneud y defnydd gorau o amser byrbryd i ddatblygu annibyniaeth y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, plastig a cherdyn yn ogystal â chompostio bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol fel siart sêr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad annerbyniol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael ac yn ystod eu hamser dan eu gofal. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r ymarferwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn arsylwi plant yn ofalus gan nodi unrhyw bryderon yn ystyrlon. Maent yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol trwy gyfathrebu â rhieni ac asiantaethau arbenigol. Er enghraifft, mae'r lleferydd iaith yn cynghori a chefnogi'r ymarferwyr yn rheolaidd pan fo'r angen i helpu symud unigolion ymlaen ag ymyrraeth benodol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn darparu cymuned gynhwysol, lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu a'r cyfarpar sydd ar gael. O ganlyniad, maent yn cydnabod unigolrwydd ac anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau dyddiol sy'n anelu'n gyson at greu amgylchedd diddorol i'r plant, yn yr adeilad a'r ardal allanol. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cefnogol a chynhyrchiol yn ddyddiol.

Mae pwyslais cadarn gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali a darparu doliau o wahanol gefndiroedd ethnig yn yr ardaloedd chwarae rôl. Yn ogystal, maent yn adeiladu tai o wahanol gyfandiroedd fel tai mwd crwn o Affrica, gyda cherdyn, glud a gwair, i gymharu sut mae eraill yn byw ar draws y byd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n dda i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant.  Mae ystod eang o adnoddau ar gael i bob plentyn ddewis, eu defnyddio a'u rhoi heibio.  Mae hyn yn hyrwyddo'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb yn effeithiol.  Yn ystod gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau lle y mae'r plant yn gweithio'n annibynnol, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r adnoddau dysgu.  Gwelir hyn wrth iddynt wneud marciau gyda sialc ar lawr yr ardal allanol, adrodd stori i blentyn arall trwy ddilyn lluniau mewn llyfr a chreu cerddoriaeth amrwd trwy daro offer y gegin.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant.

Mae'r caban a'r ardal allanol yn hunangynhaliol ac o ansawdd safonol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.  Mae'n ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â diogelwch y safle yn gadarn.  Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd buddiol i blant dyfu planhigion mewn potiau, yn ogystal â chyfarpar ymchwiliol fel dŵr, tywod ac ardal adeiladu.  Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer defnyddio ardaloedd yr ysgol a'r pentref fel adnoddau dysgu pwrpasol yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad bwriadus i waith y lleoliad.  Mae hi, trwy gydweithio cadarn â'r ymarferwyr, wedi sefydlu arferion cyson i weithdrefnau dyddiol a thymor hir y lleoliad.  Maent yn gweithio'n gydwybodol ac yn ymroi'n llwyr i lwyddiant y lleoliad er lles y plant.  Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant ac yn llwyddo i gymell y plant i wella'u gwaith yn gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol.  O ganlyniad, mae'r weledigaeth gadarn a'r addysgu deallus yn sicrhau bod y profiadau dysgu a'r gofal yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn drylwyr.  Mae hyn yn arwain at gynllunio pwrpasol a ffocws clir ar gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant.  O ganlyniad, maent yn creu newidiadau synhwyrol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored, i herio'r plant i berfformio ar eu gorau.  Er enghraifft, maent yn difyrru'r plant trwy greu ardaloedd darllen yn y sied las a chuddio brwyn lliwgar yn y tybiau pridd.  Mae'r arweinydd hefyd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'r lleoliad ac yn herio'r arweinydd a'r ymarferwyr yn effeithiol i gynnal a gwella'u harferion.  Drwy dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella.  Yn ogystal, mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r incwm, y gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl ac effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau a diwylliant sefydlog o hunanarfarnu yn effeithio ar waith y lleoliad yn bwrpasol. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar greu newidiadau synhwyrol er lles y plant. Er enghraifft, maent newydd ymateb i gyngor yr awdurdod lleol yn ddeallus ac arddangos mwy o eiriau perthnasol ar furluniau i gefnogi dysgu'r plant.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae hi a'r ymarferwyr wedi creu gwelliannau buddiol i'r ddarpariaeth trwy werthusiadau a thargedau pwrpasol. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys mireinio'r ardal allanol ymhellach i ymestyn y dysgu, ynghyd â datblygu ac ymestyn geirfa'r themâu i'r Cymry.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau trylwyr i fonitro safonau'r plant, y ddarpariaeth a'u rolau ym mywyd dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae'r gweithdrefnau hyn yn eu galluogi i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella yn dda. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau i wella ansawdd yn arwain at newidiadau pwrpasol, sy'n sicrhau cynllunio buddiol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor ar sut i drefnu'r ardaloedd yn yr ardal allanol, ynghyd â darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu, wedi gwella'r ddarpariaeth a gallu'r plant i gymhwyso'u medrau yn well. O ganlyniad, maent wedi creu amgylchedd dysgu effeithiol, yn yr adeilad a'r awyr agored.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau gweithredol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i gefnogi hyfforddiant, gwaith dyddiol yr ymarferwyr a'r ddogfennaeth. Yn ogystal, maent yn cynghori ar faterion rheolaethol ac ar sut i wella'r ddarpariaeth yn synhwyrol. Mae'r lleoliad yn gweithredu ar eu cyngor yn gydwybodol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad trwy gyfryngau cymdeithasol a llythyron tymhorol. Mae'r arweinydd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain yn effeithiol ar faterion i wella'r lleoliad, trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Er enghraifft, mae sylwadau'r rhieni wedi gwella'r ffordd y mae'r lleoliad yn eu hysbysu am beth mae'r plant yn ei wneud yn ddyddiol yn y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn cynnal cyfarfodydd cyson â'r ysgol i gefnogi trosglwyddo'r plant i'r ysgol. Maent yn cynnal sesiynau anwytho ar gyfer y plant, sy'n ddefnyddiol iawn i'w trosglwyddiad i'r ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac

asesiadau yn drefnus. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ynghyd â'r ysgol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn dda ac yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus fel mabolgampau'r ysgol a chyngherddau yn neuaddau'r pentref.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn canolbwyntio'n gydwybodol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Maent yn sicrhau bod gwaith dyddiol yr ymarferwyr yn ddiwyd ac yn targedu anghenion y plant yn ddeallus.

Mae'r arweinydd yn dyrannu dyletswyddau'n bwrpasol. Mae hi'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus i wella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn mynychu cyrsiau iaith a lleferydd, hyfforddiant ar reoli'r corff a datblygu'r ardal allanol. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gadarn wedi'i sefydlu, sydd â diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr ac asiantaethau allanol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau bod y profiadau dysgu ac arferion addysgu'r ymarferwyr yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu'r plant.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid y gweithgareddau yn yr adeilad a'r ardal allanol yn aml i sbarduno'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themau a heriau penodol. Er enghraifft, maent wedi newid yr ardal allanol i gynnwys siop i adeiladwyr, sy'n cydfynd â'r thema ar gartrefi.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn llwyddiannus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddoeth fel defnyddio grant cynaliadwyedd yn ddiweddar i gynnal y staff ac ansawdd yr adeilad. Mae eu gwaith yn sicrhau gwelliannau rheolaidd yn y ddarpariaeth fel cyfarpar TGCh cyfredol a chysgod dros ran o'r ardal allanol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |